



## Briefing 2024

The Food Conversation will involve thousands of people through a combination of citizen workshops and work with local leaders, national politicians, food businesses and others.

Participating citizens will spend 20+ hours together discussing and debating not *whether the way food works now needs to change*, but *how*.

Citizens will hear from speakers, explore case studies, and consider different proposed policy and practice changes. They will identify what to prioritise and by whom.

The Food Conversation will travel across all four countries of the UK.

Wave 1: Northumberland, West Yorkshire, East Kent – April (live citizen event 26-27<sup>th</sup> April)

Wave 2: Wales (Cardiff and Bangor) – May - June (live citizen event 7-8<sup>th</sup> June)

Wave 3: Cornwall & South London (Croydon) – June – July (live citizen event 12-13<sup>th</sup> July)

Wave 4: Scotland and Northern Ireland – August – September (live citizen event 20-21<sup>st</sup> September)

# The Food Conversation

FOOD, FARMING AND COUNTRYSIDE COMMISSION (FFCC)

**The Food Conversation is a much-needed opportunity to ask citizens what they really want from food. This year, FFCC is rolling out The Food Conversation across the UK.**

## WHY WE'RE DOING THE FOOD CONVERSATION

Of all the elements of our everyday economy, one of the things we cannot manage without is food. Headlines about food security, diet-related ill health, the impact on nature and climate of food production, food bank usage (and more) dominate the media and are part of our daily discourse. Yet, governments have struggled to grasp the nettle on food system policies, and change has floundered in the face of disagreement about what people want government to do.

The Food Conversation aims to change this and provide a well evidenced view of what citizens really think about food.

## BACKGROUND TO THE PROJECT SO FAR

We started The Food Conversation in 2023 through a methodologically robust series of workshops with a representative group of citizens in Birmingham and Cambridge enabling in-depth conversation and deliberation (similar to approaches developed for citizen assemblies).

## WHAT WE'VE FOUND SO FAR

Findings from the first Food Conversations are now regularly cited in media and parliamentary debate. Our research reveals that citizens want farmers to be paid fairly for their work, for food to be produced in ways that limit damage to nature and climate, and for everyone to be able to afford healthy, nutritious food. They want government to lead change and they want businesses that damage the health of both people and planet to be held accountable.

## WHAT NEXT?

The Food Conversation will take place in at least 10 more locations across the UK involving about 30 citizens broadly representative of their location and invited through a postcode lottery by Sortition Foundation. Participants will reunite at a national summit in 2025 to share their views directly with senior policymakers.

*For more information, get in touch: [jon.parker@ffcc.co.uk](mailto:jon.parker@ffcc.co.uk)*



These quotes are from two of the citizens who took part in the first citizens workshop.

These workshops coincided with national polling by More in Common with over 2,000 citizens.

*"The majority of people are trying to eat food that is healthier and more sustainable, but the odds are stacked against them. We need to bring this system in order, to ensure there is fairness from farm to fork."*

**Yasmeen Shah, 54, Glasgow**

*"What we are currently seeing is that profits are prioritised over people. We need to flip this."*

**Kevin Robson, 52, Sunderland**

# "Healthy Food is a Luxury"

**A new poll commissioned by the FFCC in partnership with More in Common unearths the real food crisis in Britain.**

## OUR FINDINGS

- Four in five (80%) believe healthy food is something that everyone should be able to have, yet only 8% think healthy food is affordable to most people.
- Almost half (49%) state that financial pressures have made them cut back on the quality of food they eat.
- Asked about the basics that are essential in a fair society, 80% ranked 'healthy food' as vital, second only to 'access to healthcare' (87%) and well above 'home ownership' (52%).
- 68% of the public said it is the Government's job to make sure healthy food is affordable to all.
- 60% want greater Government intervention to protect children from unhealthy and ultra-processed foods.
- 62% want greater Government intervention to ensure farmers are treated fairly.

*"Food is at the centre of some of the biggest challenges this country faces and for many people, eating enough healthy food is becoming impossible. A smart and strategic government will prioritise action across the whole food chain, from farm to fork. And what we're hearing from citizens is that this would be a real vote winner."*

*"For starters, people tell us they are concerned about the inequalities of a system that means poor children will live shorter lives than rich ones. They are sympathetic to the challenges facing family farmers who are dealing with the impacts of climate change on their businesses. And they are worried about an NHS buckling under the pressure of diet-related ill health."*

*"While difficult – this is all fixable. And as we talk to people all around the UK, it's clear that citizens see the problem and want the Government to take control of a situation that has become untenable."*

**Sue Pritchard, Chief Executive, Food, Farming and Countryside Commission**



## Briff 2024

Bydd Y Sgwrs am Fwyd yn cynnwys miloedd o bobl drwy gyfuniad o weithdai dinasyddion a gwaith gydag arweinwyr lleol, gwleidyddion cenedlaethol, busnesau bwyd ac eraill.

Bydd dinasyddion sy'n cymryd rhan yn treulio 20+ awr gyda'i gilydd yn trafod ac yn dadlau nid a oes *angen newid y ffordd mae bwyd yn gweithio nawr*, ond *sut*.

Bydd dinasyddion yn clywed gan siaradwyr, yn archwilio astudiaethau achos, ac yn ystyried gwahanol newidiadau polisi ac ymarfer arfaethedig. Byddant yn nodi beth i'w flaenoriaethu a chan bwy.

Bydd Y Sgwrs am Fwyd yn teithio ar draws pedair gwlad y DU.

Ton 1: Northumberland, Gorllewin Swydd Efrog, Dwyrain Caint – Ebrill (digwyddiad byw i ddinasyddion 26-27 Ebrill)

Ton 2: Cymru (Caerdydd a Bangor) – Mai - Mehefin (digwyddiad byw i ddinasyddion 7-8 Mehefin)

Ton 3: Cernyw a De Llundain (Croydon) – Mehefin – Gorffennaf (digwyddiad byw i ddinasyddion 12-13eg Gorffennaf)

Ton 4: Yr Alban a Gogledd Iwerddon – Awst – Medi (digwyddiad byw i ddinasyddion 20-21 Medi)

# Y Sgwrs am Fwyd

Y COMISIWN BWYD, FFERMIO A CHEFN GWLAD

**Mae'r Sgwrs am Fwyd yn gyfle y mae mawr ei angen i ofyn i ddinasyddion beth maen nhw ei eisiau mewn gwirionedd gan fwyd. Eleni, mae'r Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad yn cyflwyno Y Sgwrs am Fwyd ledled y DU.**

## PAM RYDYN NI'N SGWRSIO AM FWYD

O holl elfennau ein heconomi bob dydd, un o'r pethau na allwn ymdopi hebdo yw bwyd. Mae penawdau am sicrwydd bwyd, salwch sy'n gysylltiedig â diet, yr effaith ar natur a hinsawdd cynhyrchu bwyd, y defnydd o fanciau bwyd (a mwy) yn dominyddu'r cyfryngau ac yn rhan o'n sgwrs dyddiol. Ac eto, mae llywodraethau wedi brwydro i fynd i'r afael â pholisiau systemau bwyd, ac mae newid wedi colli trywydd yn wyneb anghytundeb ynghylch yr hyn mae pobl eisiau i'r llywodraeth ei wneud. Nod y Sgwrs am Fwyd yw newid hyn a darparu golwg â thystiolaeth dda o farn dinasyddion am fwyd mewn gwirionedd.

## CEFNDIR Y PROSIECT HYD YMA

Dechreuom Y Sgwrs am Fwyd yn 2023 trwy gyfres o weithdai methodolegol gadarn gyda grŵp cynrychioliadol o ddinasyddion yn Birmingham a Chaergrawnt oedd yn galluogi sgwrs a thrafodaeth fanwl (yn debyg i ddulliau a ddatblygwyd ar gyfer cynulladau dinasyddion).

## YR HYN RYDYN NI WEDI'I DDARGANFOD HYD YMA

Mae canfyddiadau'r Sgyrsiau Bwyd cyntaf bellach yn cael eu dyfynnu'n rheolaidd mewn dadl yn y cyfryngau a'r Senedd. Mae ein hymchwil yn datgelu bod dinasyddion eisiau i ffermwyr gael eu talu'n deg am eu gwaith, i fwyd gael ei gynhyrchu mewn ffyrdd sy'n cyfyngu ar niwed i natur a hinsawdd, ac i bawb allu fforddio bwyd iach, maethlon. Maen nhw eisiau i'r llywodraeth arwain newid ac maen nhw eisiau i fusnesau sy'n niweidio iechyd pobl a'r blaned gael eu dal yn atebol.

## BETH NESAF?

Bydd y Sgwrs am Fwyd yn cael ei chynnal mewn o leiaf 10 lleoliad arall ar draws y DU ac yn cynnwys tua 30 o ddinasyddion sy'n cynrychioli eu lleoliad a fydd yn cael eu gwahodd trwy loteri cod post gan Sortition Foundation. Bydd y cyfranogwyr yn aduno mewn uwchgyhadledd genedlaethol yn 2025 i rannu eu barn yn uniongyrchol ag uwch lunwyr polisi.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: [jon.parker@ffcc.co.uk](mailto:jon.parker@ffcc.co.uk)



Mae'r dyfyniadau hyn gan ddau ddinesydd a gymerodd ran yn y gweithdy dinasyddion cyntaf.

Roedd y gweithdai hyn yn cyd-daro ag arolwg cenedlaethol gan More in Common gyda dros 2,000 o ddinasyddion.

*"Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ceisio bwyta bwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy, ond mae popeth yn eu herbyn. Mae angen i ni gael trefn ar y system hon, er mwyn sicrhau tegwch o'r fferm i'r fforc."*

**Yasmeen Shah, 54, Glasgow**

*"Yr hyn rydyn ni'n ei weld ar hyn o bryd yw bod elw'n cael blaenoriaeth dros bobl. Mae'n rhaid i ni newid hyn."*

**Kevin Robson, 52, Sunderland**

# "Moethusrwydd yw Bwyd Iach"

**Mae arolwg barn newydd a gomisiynwyd gan y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad mewn partneriaeth â More in Common yn datgelu'r argyfwng bwyd go iawn ym Mhrydain.**

## EIN CANFYDDIADAU

- Mae pedwar o bob pump person (80%) yn credu bod bwyd iach yn rhywbeth y dylai pawb allu ei gael, ond dim ond 8% sy'n meddwl bod bwyd iach yn fforddiadwy i'r rhan fwyaf o bobl.
- Mae bron i hanner (49%) yn nodi bod pwysau ariannol wedi gwneud iddynt dorri'n ôl ar ansawdd y bwyd maen nhw'n ei fwyta.
- Pan ofynnwyd iddynt am y pethau sylfaenol sy'n hanfodol mewn cymdeithas deg, nododd 80% fod 'bwyd iach' yn hanfodol, yn ail yn unig i 'fynediad at ofal iechyd' (87%) ac yn llawer uwch na 'bod yn berchen ar gartref' (52%).
- Dywedodd 68% o'r cyhoedd mai gwaith y Llywodraeth yw sicrhau bod bwyd iach yn fforddiadwy i bawb.
- Mae 60% eisiau mwy o ymyrraeth gan y Llywodraeth i amddiffyn plant rhag bwydydd afiach a bwydydd wedi'u prosesu'n helaeth.
- Mae 62% eisiau mwy o ymyrraeth gan y Llywodraeth i sicrhau bod ffermwyr yn cael eu trin yn deg.

*"Mae bwyd wrth wraidd rhai o'r heriau mwyaf mae'r wlad hon yn eu hwynebu ac i lawer o bobl, mae bwyta digon o fwyd iach yn dod yn amhosib. Bydd llywodraeth glyfar a strategol yn blaenoriaethu gweithredu ar draws y gadwyn fwyd gyfan, o'r fferm i'r fforc. A'r hyn rydyn yn ei glywed gan ddinasyddion yw byddai hyn wir yn ennill pleidleisiau."*

*"I ddechrau, mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn poeni am anghydraddoldebau system sy'n golygu y bydd plant tlawd yn byw bywydau byrrach na rhai cyfoethog. Maen nhw'n cydymdeimlo â'r heriau sy'n wynebu ffermwyr teuluol sy'n delio ag effeithiau newid hinsawdd ar eu busnesau. Ac maen nhw'n poeni am GIG sy'n gwegian o dan bwysau salwch sy'n gysylltiedig â deiet. Er ei fod yn anodd – gall hyn gael ei drwsio. Ac wrth i ni siarad â phobl ledled y DU, mae'n amlwg bod dinasyddion yn gweld y broblem ac eisiau i'r Llywodraeth gymryd rheolaeth o sefyllfa sydd wedi dod yn anghynaladwy."*

**Sue Pritchard, Prif Weithredwr, Y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad**